



Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

Polisi Amgylcheddol

Fersiwn: 4.2

Diweddarwyd: 15 Rhagfyr 2020

Perchennog: Angela Overment, Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD

Cynnwys

Datganiad o Ddiben	3
Datganiad o Ddiben	3
Cwmpas	3
Polisi.....	3
Gweithgareddau Gweithredol	3
Cyfrifoldebau.....	4
Rhwymedigaethau Cydymffurfio	4
Cofrestr Agweddau Amgylcheddol.....	5
Amcanion a Thargedau.....	6
Cyfathrebu Mewnol ac Allanol.....	7
Gwelliant Parhaus.....	8
Monitro a Gwerthuso.....	8
Adolygu	9
Atodiad 1: Cyfrifoldebau Cyffredinol.....	10
Atodiad 2: Hierarchiaeth Gwastraff.....	12

Rhif Fersiwn	y	Statws	Rheswm	Dyddiad
1.0		Drafft	Drafft cychwynol gan y Prif Weithredwr	Mehefin 2014
1.1		Terfynol	Cytunwyd gan y Bwrdd	Mehefin 2014
1.2		Terfynol	Adolygiad blynyddol gan Swyddog a Logo Newydd	Medi 2015
1.3		Terfynol	Adolygwyd a diwygiwyd gan y Tîm Gwyrdd a'r Tîm Rheoli Uwch	Ionawr 2017
2.0		Drafft	Adolygwyd gan y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD	Hydref 2018
2.1		Drafft	Adolygwyd gan y Prif Weithredwr	Tachwedd 2018
2.2		Drafft	Adolygwyd gan y Tîm Gwella Ansawdd	21 Tachwedd 2018
2.3		Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr	22 Tachwedd 2018
3.1		Adolygu	Adolygwyd gan y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD	15 Tachwedd 2019
3.2		Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr	15 Tachwedd 2019
4.1		Adolygu	Adolygwyd gan y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD	9 Rhagfyr 2020
4.2		Cymeradwywyd	Cymeradwywyd gan y Prif Weithredwr	15 Rhagfyr 2020

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (sy'n masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, a'n nod yw cynnig gwasanaeth o'r un safon yn y ddwy iaith.

Datganiad o Ddiben

- 1.1. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn cydnabod ac yn ymrwymo i'r rwymedigaeth gyfreithiol a moesol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- 1.2. Bwriad y ddogfen hon yw cyfleu ymrwymiad y Ganolfan mewn ffordd glir, gan gofnodi'r System Reoli Amgylcheddol (EMS) a fydd yn sicrhau y caiff hyn ei gyflawni. Mae'r EMS yn cynnwys:
 - Ymrwymiad ar lefel uwch i ddiogelu'r amgylchedd
 - Darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant
 - Nodi a chydymffurfio gyda rhwymedigaethau rheoliadol a gwirfoddol
 - Nodi a gwerthuso'r effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o weithgareddau gweithredol
 - Atal llygredd ac effeithiau amgylcheddol eraill pryd bynnag y bo modd
 - Nodi a mabwysiadu arferion gwaith sy'n atal yr amgylchedd naturiol rhag cael niwed a rhag dirywio ble bynnag y bo modd
 - Gosod ac adolygu amcanion a thargedau amgylcheddol
 - Cyfleu materion amgylcheddol
 - Cadarnhau cyfrifoldebau penodol pobl yn y sefydliad
 - Monitro a gwerthuso'r EMS er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Cwmpas

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithrediadau Canolfan Cydweithredol Cymru ar draws safleoedd lluosog y sefydliad.

Polisi

Gweithgareddau Gweithredol

- 3.1 Canolfan Cydweithredol Cymru yw'r asiantaeth datblygu cydweithredol fwyaf yn y DU, gan ddarparu cymorth busnes i fusnesau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol, gan gynnwys busnesau sy'n tyfu a'r rhai sydd newydd gychwyn; cwmnïau cydweithredol gofal cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol tai, a chyfleusterau sy'n eiddo i'r gymuned.
- 3.2 Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda sefydliadau hefyd er mwyn gwella'r defnydd a wneir o dechnoleg ddigidol ar gyfer iechyd a lles, ac mae'n helpu cymunedau i ddatblygu busnes neu brosiectau sy'n gwerthfawrogi pobl a'r amgylchedd gymaint ag elw.

- 3.3 Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn gweithio i ddylanwadu ar, hysbysu ac ymateb i bolisi cyhoeddus yng Nghymru.
- 3.4 Lleolir swyddfa gofrestredig y Ganolfan yng Nghaerffili, ac mae ganddi swyddfa llai o faint yn Abertawe a lle gwaith hyblyg a rennir yng Nghaerfyrddin. Cyn pandemig Covid-19, roedd y Ganolfan yn cyflogi nifer fach o weithwyr a oedd yn gweithio o'u cartrefi. Er mis Mawrth 2020, mae'r holl staff wedi bod yn gweithio o'u cartrefi. Adolygir hyn yn unol â chynngor gan Lywodraeth Cymru, ond mae'r Ganolfan yn cefnogi gweithio gartref fel dewis hirdymor i staff.
- 3.5 Mae rhai staff yn staff desg yn llwyr, ond mae elfen o deithio yn rhan o rôl nifer o staff darparu gweithredol. Mae hyn wedi lleihau'n fawr yn ystod yr ymateb i Covid-19, ac mae'r Ganolfan yn awyddus i ystyried ffyrdd y gellir cadw teithio mor isel ag y bo modd pan godir y cyfyngiadau.
- 3.6 Mae natur ein busnes yn golygu bod gweithgareddau gweithredol ym mhob safle yn rhai o natur gweinyddol. Er hyn, mae'r Ganolfan yn cydnabod bod pob gweithgarwch dynol yn cael effaith amgylcheddol.

Cyfrifoldebau

- 3.7 Yn Atodiad 1, amlinellir y cyfrifoldebau cyffredinol sy'n gysylltiedig gyda materion amgylcheddol i bobl ar bob lefel yn y sefydliad. Dylid nodi mai bwriad y cyfrifoldebau a restrir yw cynnig canllaw cyffredinol. Nid ydynt yn cynnwys popeth.
- 3.8 Nid yn unig y mae cyfrifoldebau ar bobl i ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r amgylchedd yn berthnasol pan fyddant yn gweithio yn safleoedd y cwmni, ond maent yn ymestyn oddi ar y safle hefyd ac wrth deithio.
- 3.9 Pan fydd aelod o staff yn methu cyflawni eu rhwymedigaethau amgylcheddol dro ar ôl tro, ystyrir bod hyn yn torri amodau'r polisi hwn ac efallai y caiff camau disgyblu eu cymryd yn unol â pholisi Disgyblu y Ganolfan.

Rhwymedigaethau Cydymffurfio

- 3.10 Mae'r Ganolfan wedi ymrwymo i gydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoliadol eraill neu ymrwymadau gwirfoddol. Nodir y rhain yn y Gofrestr Cydymffurfiaeth.
- 3.11 Cedwir y Gofrestr Cydymffurfiaeth gan y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD ac fe'i hadolygir o leiaf unwaith y flwyddyn ar y cyd â'r Prif Weithredwr. Bydd

adolygiadau'n cynnwys archwiliadau o bryd i'w gilydd yn erbyn ffynonellau deddfwriaeth amgylcheddol a thanysgrifio i wasanaethau sy'n darparu diweddariadau awtomatig.

- 3.12 Oherwydd risg isel gweithgareddau busnes, ni ragwelir y bydd achosion yn codi lle y torrir y gofrestr cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, pan nodir problemau cydymffurfiaeth, cofnodir y rhain yng nghyfleuster myHR. Adolygir cofnodion myHR yn rheolaidd, a phan gofnodir materion, bydd hyn yn ysgogi proses ymchwilio a chatau cywiro. Adroddir am faterion lle y gwelir diffyg cydymffurfiaeth i'r Bwrdd. Cofnodir canlyniadau camau cywiro ac fe'u hadolygir er mwyn canfod eu heffeithiolrwydd.
- 3.13 Yn ogystal, bydd y Ganolfan yn cysylltu â Gweinyddwr Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn Groundwork cyn gynted ag y bo modd os bydd achos o ddiffyg cydymffurfio gyda gofyniad cyfreithiol yn digwydd ac yn arwain at gyhoeddi gwŷs erlyn, hysbysiad gorfodi neu hysbysiad atal.

Cofrestr Agweddau Amgylcheddol

- 3.14 Mae'r Ganolfan yn nodi'r prif agweddau amgylcheddol sy'n deillio o'i gweithgarwch dynol neu weithredol, gan asesu eu difrifoldeb a chan nodi mesurau rheoli a fydd yn lleihau'r risg gymaint ag y bo modd, lle bynnag y bo modd.
- 3.15 Cofnodir y rhain yn y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol, a gedwir gan y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD ac fe'i hadolygir o leiaf unwaith y flwyddyn ar y cyd â'r Prif Weithredwr.
- 3.16 Mae'r Gofrestr Agweddau Amgylcheddol yn dangos bod yr effeithiau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o weithgareddau'r Ganolfan yn gysylltiedig â gwastraff a theithio at ddibenion busnes, felly mae'r materion hyn yn cael lle amlwg yn yr amcanion a'r targedau er mwyn sicrhau gwelliant.
- 3.17 Mae'r Ganolfan yn gweithredu'r hierarchiaeth gwastraff er mwyn delio â'r gwastraff nad yw'n beryglus y mae'n ei gynhyrchu. Gellir gweld manylion yr hierarchiaeth gwastraff yn Atodiad 2.

Cynllun Atal Llygredd

- 3.18 Mae'r Ganolfan yn cynnal Cynllun Atal Llygredd hefyd, sy'n ystyried y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol.
- 3.19 Nod y Cynllun Atal Llygredd yw lleihau'r risgiau amgylcheddol gymaint ag y bo modd, gan ddarparu ymateb effeithiol i unrhyw ddigwyddiad posibl.

- 3.20 Mae'r Cynllun Atal Llygredd yn disgrifio risgiau llygredd a mesurau a gynigir er mwyn atal digwyddiadau llygredd, ac mae'n disgrifio mesurau arfaethedig i leihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o ddigwyddiadau llygredd gymaint ag y bo modd.
- 3.21 Mae'r Ganolfan yn falch o'r ffaith nad yw erioed wedi profi digwyddiad llygredd, ond pe byddai rhywbeth o'r fath yn digwydd, byddai hyn yn cael ei gofnodi yng nghyfleuster myHR. Adolygir cofnodion myHR yn rheolaidd a phan gofnodir materion, bydd hyn yn ysgogi proses ymchwilio a chamau cywiro. Adroddir am ddigwyddiadau llygredd i'r Bwrdd. Cofnodir canlyniadau camau cywiro ac fe'u hadolygir er mwyn canfod eu heffeithiolrwydd.
- 3.22 Cynhelir y Cynllun Atal Llygredd gan y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD, ac fe'i adolygir o leiaf unwaith y flwyddyn ar y cyd â'r Prif Weithredwr.
- 3.23 Yn ogystal, mae gan y Ganolfan "Gynllun Parhad Busnes" llawn mewn grym, sy'n darparu arweiniad pe byddai trychineb neu amhariad mawr yn digwydd.

Amcanion a Thargedau

- 3.24 Gan ystyried y Gofrestr o'r Effaith Amgylcheddol, y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol a'r Cynllun Atal Llygredd ac ymrwymadau sefydliadol eraill, mae'r Ganolfan wedi gosod amcanion a thargedau gwella amgylcheddol.
- 3.25 Mae'r amcanion a'r targedau hyn yn rhoi blaenoriaeth i'r agweddau amgylcheddol arwyddocaol neu'r meysydd gwella y gall y Ganolfan arfer rheolaeth neu ddylanwad drostynt a'u hintegreiddio mewn prosesau busnes.
- 3.26 O'r herwydd, mae amcanion amgylcheddol y Ganolfan fel a ganlyn:
- lleihau ôl troed carbon y Ganolfan
 - cynnal rheolaeth effeithiol a gwelliant parhaus yr EMS
 - hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith staff.
- 3.27 Bydd cynllun gweithredu ar wahân yn nodi:
- targedau
 - camau gweithredu penodol
 - unigolyn(unigolion) cyfrifol
 - adnoddau
 - amserlenni
 - meini prawf monitro / dangosyddion gwerthuso er mwyn asesu cynnydd

3.28 Caiff y cynllun gweithredu ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu newidiadau o fewn EMS, a/neu gyflawniadau a wnaethpwyd, yn unol â gwelliant parhaus.

Cyfathrebu Mewnol ac Allanol

3.29 Bydd y Ganolfan yn cyfathrebu gwybodaeth fel yr amlinellir isod:

Beth	Pryd	I Bwy	Sut
Polisi Amgylcheddol	Bob blwyddyn neu fel y caiff ei ddiweddarau	Staff Bwrdd Y cyhoedd Groundwork Wales	myHR Connect Gwefan EMS y Ddraig Werdd
Cofrestr cydymffurfiaeth	Bob blwyddyn neu fel y caiff ei diweddarau	Staff Groundwork Cymru	Sharepoint Yn unol â'r cais
Cofrestr Agweddau Amgylcheddol	Bob blwyddyn neu fel y caiff ei diweddarau	Staff Groundwork Cymru	Sharepoint Yn unol â'r cais
Cynllun atal llygredd	Bob blwyddyn neu fel y caiff ei ddiweddarau	Staff Groundwork Cymru	Sharepoint Yn unol â'r cais
Cynllun Gweithredu Amcanion a Thargedau	Bob blwyddyn neu fel y caiff ei ddiweddarau	Staff Groundwork Cymru	Sharepoint Yn unol â'r cais
Data monitro	Bob blwyddyn neu fel y caiff ei ddiweddarau	Staff Groundwork Cymru	Sharepoint Yn unol â'r cais
Adroddiad Amgylcheddol	Bob blwyddyn neu fel y	Staff Y cyhoedd	Connect Gwefan

	caiff ei ddiweddaru	Groundwork Cymru	Yn unol â'r cais
--	------------------------	---------------------	------------------

3.30 Bydd y Ganolfan yn cyfathrebu gwybodaeth arall sy'n ymwneud â materion amgylcheddol trwy'r Bwrdd a/neu gyfarfodydd staff, y fewnwyd, cylchlythyrau staff, blogiau neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, yn unol â'r hyn sy'n briodol.

3.31 Bydd y Tîm Arwain Uwch yn cytuno ar y cyfrifoldeb dros ymateb i gyfathrebu allanol, ac yn ei ddirprwyo i unigolyn priodol, gan ddibynnu ar y cyd-destun. Darparir manylion yr ohebiaeth i'r unigolyn sy'n meddu ar y cyfrifoldeb dros reoli'r EMS (y Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD ar hyn o bryd).

3.32 Hysbysir cyflenwyr a chontractwyr o unrhyw feini prawf ynghylch caffael moesegol fel rhan o'r broses gaffael. Cyfeirir darparwyr sy'n cael eu contractio at y Polisi Amgylcheddol.

3.33 Anogir staff i hyrwyddo arferion amgylcheddol da a rhannu ein hymrwymiad i wella ein perfformiad amgylcheddol gyda phobl a sefydliadau eraill.

Gwelliant Parhaus

3.34 Mae'r Ganolfan wedi ymrwmo i wella ei pherfformiad a'i rheolaeth amgylcheddol yn barhaus.

3.35 Yn arbennig, bydd y Ganolfan yn ceisio gwella:

- ei dealltwriaeth o'i heffeithiau amgylcheddol a'r ffyrdd y mae gweithgareddau dynol a gweithredol yn achosi'r rhain
- gallu y Ganolfan i roi sylw i'r effeithiau amgylcheddol hyn
- yr EMS ei hun
- perfformiad amgylcheddol mesuradwy (trwy gyfrwng targedau).

Monitro a Gwerthuso

3.36 Caiff effeithiolrwydd yr EMS ei fonitro a'i werthuso ar sail:

- Data perthnasol sy'n gysylltiedig ag amcanion a thargedau
- Canfyddiadau dogfennau allweddol megis y Gofrestr Cydymffurfiaeth, y Gofrestr Agweddau Amgylcheddol a'r Cynllun Atal Llygredd
- Canlyniadau archwilio allanol gan sefydliadau megis Groundworks
- Unrhyw ddigwyddiadau llygredd neu ddiffyg cydymffurfiaeth


3.37 Caiff camau gweithredu gwella eu cymryd yn ôl yr angen.

Adolygu

- 4.1 Adolygir y ddogfen hon bob blwyddyn gan berchennog y polisi a'r Prif Weithredwr, neu'n gynharach os gwneir newidiadau deddfwriaethol perthnasol neu newidiadau mewn perthynas â chydymffurfiaeth.
- 4.2 Y dyddiad adolygu nesaf yw Rhagfyr 2021.

Llofnod y Prif Weithredwr:

Dyddiad:



15 Rhagfyr 2020

Atodiad 1: Cyfrifoldebau Cyffredinol

Aelodau Bwrdd

- Cyfrifoldeb pennaf dros bob agwedd ar reolaeth amgylcheddol.
- Cadarnhau unrhyw ddogfennau gweithdrefnol newydd.

Prif Weithredwr

- Cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo dros ddarpariaeth weithredol yr holl agweddau ar reolaeth Amgylcheddol.
- Cyfrannu at ddatblygiad unrhyw ddogfennau gweithdrefnol newydd.
- Cymeradwyo dogfennau newydd a diwygiedig.

Tîm Rheoli Uwch

- Sicrhau y rhoddir yr un sylw i faterion Amgylcheddol ag y rhoddir i'r holl benderfyniadau strategol neu weithredol eraill.
- Sicrhau, i'r graddau ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol, bod trefniadau effeithiol mewn grym i ddiogelu'r amgylchedd.
- Sicrhau darpariaeth adnoddau priodol fel y gellir cyflawni ymrwymïadau Amgylcheddol.
- Sicrhau yr adolygir risgiau amgylcheddol yn rheolaidd, gyda'r nod o bennu risgiau ar draws y sefydliad, a lleihau'r risgiau hynny gymaint ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol, yn enwedig wrth gamu i faes busnes newydd. Pan na ellir gwaredu risgiau, adolygu'r rhain yn rheolaidd.
- Arwain trwy esiampl bersonol a gosod safonau uchel i staff ym maes rheolaeth amgylcheddol.
- Adolygu gwybodaeth amgylcheddol er mwyn monitro ac adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol, o leiaf unwaith y flwyddyn neu ar ôl newid arwyddocaol neu ddiffyg cydymffurfio.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol gyda gweithdrefnau Amgylcheddol y Ganolfan.

Tîm Rheoli

- Sicrhau y rhoddir yr un sylw i faterion Amgylcheddol ag y rhoddir i'r holl benderfyniadau strategol neu weithredol eraill.
- Sicrhau, i'r graddau ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol, bod trefniadau effeithiol mewn grym i ddiogelu'r amgylchedd.
- Sicrhau yr adolygir risgiau amgylcheddol yn rheolaidd, gyda'r nod o bennu risgiau ar draws y sefydliad, a lleihau'r risgiau hynny gymaint ag y bo hynny'n ymarferol yn rhesymol. Pan na ellir gwaredu risgiau, adolygu'r rhain yn rheolaidd a'u hadrodd i'r Tîm Arwain Uwch.
- Arwain trwy esiampl bersonol a gosod safonau uchel i staff ym maes rheolaeth amgylcheddol.

- Sicrhau bod staff yn y maes cyfrifoldeb dan sylw yn ymwybodol o ac yn cydymffurfio gyda gweithdrefnau amgylcheddol y Ganolfan, a chyfathrebu unrhyw newidiadau.

Cynrychiolydd Rheolaeth Amgylcheddol ("Unigolyn Cymwys")

- Sylwer – Mae'r Rheolwr Cymorth Corfforaethol ac AD yn cyflawni'r rôl hwn ar hyn o bryd.
- Gweithredu a chynnal y System Reoli Amgylcheddol.
- Sicrhau y caiff y System Reoli Amgylcheddol ei hintegreiddio ar draws holl weithgareddau'r sefydliad.
- Sicrhau bod y Polisi Amgylcheddol, y Gofrestr Cydymffurfiaeth, y Cynllun Atal Llygredd a'r Gofrestr Agweddau Amgylcheddol yn cael eu diweddarau.
- Cydlynu amcanion, targedau a gwelliannau amgylcheddol.
- Monitro cymhwysedd a pherfformiad amgylcheddol.
- Cyfathrebu am faterion amgylcheddol (yn fewnol ac yn allanol).
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau amgylcheddol, ymrwymïadau, rolau, awdurdodau a pherfformiad amgylcheddol.
- Adrodd i'r Tîm Arwain Uwch am berfformiad amgylcheddol y sefydliad ac effeithiolrwydd ei System Reoli Amgylcheddol.
- Gweithredu ynghylch unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau, neu ymddygiad, dulliau gwaith neu offer sy'n niweidiol i'r amgylchedd, ac ysgogi camau cywiro er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.


Unigolion (mae'n berthnasol i bob cyflogai, staff asiantaeth, contractwr ac ymwelydd)

- Gweithio mewn ffordd sy'n ystyriol o'r amgylchedd a hyrwyddo'r dull hwn ymhlith eraill pryd bynnag y bo modd.
- Cydymffurfio ag egwyddorion yr Hierarchiaeth Gwastraff, fel y nodir yn Atodiad 2.
- Cydymffurfio gyda pholisi amgylcheddol y Ganolfan ac unrhyw weithdrefnau amgylcheddol y Ganolfan.
- Hysbysu rheolwr yn syth os byddant wedi cael cyswllt gyda neu wedi gweld unrhyw ddigwyddiad sy'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.
- Adrodd am unrhyw ddigwyddiad amgylcheddol trwy swyddogaeth adrodd am ddamweiniau myHR.

Atodiad 2: Hierarchiaeth Gwastraff

Mae'r hierarchiaeth gwastraff yn system rheoli gwastraff sy'n rhoi dewisiadau mewn trefn yn unol â'r hyn sydd orau i'r amgylchedd. Mae'n rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff yn y lle cyntaf. Pan gaiff gwastraff ei greu, mae'n rhoi blaenoriaeth i'w baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio, yna ailgylchu, yna adfer, ac yn olaf, ei waredu (tirlenwi).

Nodir yr hierarchiaeth gwastraff yn Erthygl 4 y Fframwaith Gwastraff diwygiedig (Cyfarwyddeb 2008/98/EC)



Gellir gweld gwybodaeth bellach trwy'r ddolen isod:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69403/pb13530-waste-hierarchy-guidance.pdf